# ppDINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PANEL ARIANNU ALLANOL

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 6, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MERCHER, 2 TACHWEDD 2016 AM 10.00 AM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | W Evans | R Francis-Davies |
| J E C Harris | D H Hopkins | A S Lewis |
| J A Raynor | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Spencer Martin | Cydlynydd Perthnasoedd y Sector Gwirfoddol |
| Wendy Parkin | Uwch Gyfreithiwr |
| Paul Relf | Rheolwr Cyllid Allanol |
| Elliott Williams | Rheolwr Cyllid Allanol |
| Gaynor Winsor | Cyfrifydd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C E Lloyd a/ac R C Stewart

### 20 ETHOL CADEIRYDD DROS DRO.

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd R Francis-Davies yn Gadeirydd Dros Dro.

**BU'R CYNGHORYDD R FRANCIS-DAVIES (CADEIRYDD DROS DRO) YN LLYWYDDU.**

### 21 DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiant canlynol:

Y Cynghorydd J A Raynor – Personol – Rhif Cofnod 25 – Dyfodol y Gronfa Trawsnewid Gweithredu yn y Gymuned (CATF). Mae Cyfeillion Parc Dynfant yn gweithredu yn fy ward ac rwy'n aelod cysylltiol.

### 22 CANOLFAN FEDDYGOL A CHYMORTH I DEULUOEDD NEWYDD YM MAYHILL.

Cyflwynodd y Rheolwr Adfywio Ffisegol adroddiad a oedd yn amlinellu goblygiadau cyfalaf a refeniw Canolfan Feddygol a Chymorth i Deuluoedd newydd ym Mayhill ac yn ceisio awdurdod i fwrw ymlaen â'r datblygiad dynodedig mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

**PENDERFYNWYD:**

1. **CYMERADWYO'R** prosiect;
2. Ystyried darparu arian ar gyfer cost ychwanegol gwerth £167k ym mhroses y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2016/2017; a
3. **NODI** bod yr wybodaeth ddiweddaraf wedi'i rhoi am y broses o gyd-drafod gwerthu tir a chostau adeiladu.

## 23 CYNLLUN LLINIARU LLIFOGYDD BLACKPILL.

Cyflwynodd y Swyddog Cynnal a Chadw Draenio Cynlluniedig a Rheoli'r Arfordir yr wybodaeth ddiweddaraf am grant Llywodraeth Cymru i gefnogi dylunio Cynllun Lliniaru Llifogydd Blackpill.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

**PENDERFYNWYD CYMERADWYO'R** grant i gefnogi'r dyluniad ar gyfer y cynllun.

## 24 RHOI'R WYBODAETH DDIWEDDARAF AM GRANT LLYWODRAETH CYMRU I GEFNOGI CYNLLUNIAU RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD AR RADDFA FACH.

Cyflwynodd y Swyddog Cynnal a Chadw Draenio Cynlluniedig a Rheoli'r Arfordir yr wybodaeth ddiweddaraf am grant Llywodraeth Cymru i gefnogi cynlluniau rheoli perygl llifogydd ar raddfa fach.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r** grant i gefnogi'r cynlluniau a nodir.

## 25 CRONFA TRAWSNEWID GWEITHREDU YN Y GYMUNED.

Cyflwynodd Cydlynydd Perthnasoedd y Sector Gwirfoddol adroddiad am ddyfodol y Gronfa Trawsnewid Gweithredu yn y Gymuned (CATF).

Dywedodd y bu CATF ar waith am bum rownd a bwriedir cau'r chweched rownd i geisiadau ym mis Mawrth 2017. Hyd yn hyn, mae'r CATF wedi cefnogi 17 prosiect a chlustnodi cyfanswm gwerth £298,058 i brosiectau (cyllideb gwerth £300,000).

Nododd yr aelodau nad oes unrhyw gyllid i barhau â'r CATF. Ar hyn o bryd, mae £2,000 yn weddill o'r gyllideb wreiddiol, sef £300,000. Petai'r aelodau am gefnogi'r 6ed rownd arfaethedig o arian ac/neu estyn y Gronfa Trawsnewid Gweithredu yn y Gymuned ymhellach, byddai angen ychwanegu at y gyllideb er mwyn caniatáu am hyn.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

**PENDERFYNWYD** gohirio'r adroddiad tan y cyfarfod nesaf.

26 **GWAHARDD Y CYHOEDD.**

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem fusnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol.**

**(SESIWN GAEËDIG)**

27 **TROSOLWG O'R CEISIADAU PRESENNOL A'R RHAI SYDD AR DDOD AM ARIAN EWROPEAIDD AC ALLANOL.**

Cyflwynodd Swyddog Cyllid Ewropeaidd ac Allanol adroddiad a roddodd yr wybodaeth ddiweddaraf am geisiadau ar gyfer cyllid Ewropeaidd a chyllid allanol arall.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

**PENDERFYNWYD:**

1) Nodi'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau yn adrannau 2 i 6 yr adroddiad;
2) Cefnogi'r cais i gefnogi rhaglen 4.4 yr ERDF ar gyfer y ganolfan gyflogaeth ar Ffordd y Brenin;
3) Cefnogi'r cais i Ddinas a Sir Abertawe gymryd rhan fel cyd-fuddiolwyr prosiect Cam Nesa.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.29 am

**CADEIRYDD**